# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Carco Penalltau**

**Cwm Calon**
**Penallta**
**Ystrad Mynach**
**CF82 6AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Carco Penalltau yn cynnwys dau wasanaeth ar wahân o dan un cofrestriad sy'n cael eu darparu gan Fenter Iaith Caerffili. Mae'r ddau wasanaeth yn gweithredu o safleoedd yn Ysgol Gynradd Penalltau yn Ystrad Mynach. Mae'r gwasanaeth cofleidiol yn rhedeg o 12.15 i 15.15 bob prynhawn. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn rhedeg o 15.15 i 17.15. Dim ond yn ystod tymor yr ysgol y mae'r ddwy ddarpariaeth ar gael. Mae dau unigolyn cyfrifol – Rhiannon Tucker sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cofleidiol a Maria Lees sy'n gyfrifol am y clwb ar ôl ysgol. Mae Menter Iaith wedi penodi personau â chyfrifoldeb sy'n meddu ar y profiad a'r cymwysterau priodol sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaethau o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir gan y ddau wasanaeth.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau ac yn dysgu o amrywiaeth dda o weithgareddau a phrofiadau diddorol. Maent yn setlo'n dda, yn ymlacio ac yn teimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd sy'n gyfarwydd iddynt. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r plant eraill a'r staff a gyflogwyd i ofalu amdanynt. Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth dda am anghenion unigol y plant ac yn darparu gofal meithringar a chefnogol. Caiff y gwasanaethau eu cefnogi'n dda gan y darparwr ac mae cydberthnasau da â'r ysgol lle y mae'r gwasanaethau wedi'u lleoli. Mae'r gymhareb o staff i blant yn dda ac mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n dda, a hynny'n gyson. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn ddeniadol ac mae digon o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Mae'n rhaid atgyfnerthu rhai systemau rheoli.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gweithdrefnau goruchwylio ac arfarnu wedi gwella. Mae'r holl staff wedi cael rhagor o hyfforddiant Prevent.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 28, Atodlen 2. Rhan 1

(2) (11) (g) gan mai dim ond un geirda oedd gan ddau aelod o'r staff er mwyn pennu eu haddasrwydd yn hytrach na'r ddau eirda sydd eu hangen. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio gan fod yr unigolyn cyfrifol wedi trefnu bod geirdaon ychwanegol yn cael eu darparu ar unwaith a'u hanfon atom.
Gwnaethom rai argymhellion arfer da a amlinellir yn yr adroddiad ac a grynhoir yn adran 5.2.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd ysgogol. Maent yn frwdfrydig ac yn dangos yn glir eu bod yn fodlon ar y gweithgareddau a gynigir iddynt. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol a chynnes o fewn y grŵp ac mae'r gwasanaeth yn eu croesawu ac yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Maent yn derbyn gofal cyson a chefnogol ac yn edrych ymlaen at ddod i'r clwb.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser yn y clwb a gallant arwain eu chwarae eu hunain. Maent yn cyfrannu awgrymiadau a syniadau ar gyfer pethau newydd i'w prynu a gweithgareddau. Mae'r plant yn hyderus i ddechrau chwarae gemau a gweithgareddau ac yn gofyn am gymorth gan y staff pan fo angen. Caiff y plant eu hannog i leisio'u barn a chyfrannu at syniadau ynghylch rhedeg y clwb ar ôl ysgol. Gwelsom fod y plant a'r staff yn cael sgyrsiau cyfeillgar a chefnogol, ac roedd yn amlwg bod y staff yn gwrando ar y plant ac yn ystyried eu safbwyntiau bob amser.

Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn y gwasanaeth ac yn mwynhau'r cyfle i gwrdd â'u ffrindiau y tu allan i ddiwrnod ysgol ffurfiol. Clywsom y plant yn rhannu gwybodaeth â'r staff a phlant eraill, ac roedd y plant yn fodlon eu byd wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r plant yn setlo yn y gwasanaeth yn hawdd ac yn cael budd o'r ffaith bod eu gofalwyr yn gyson a'u bod yn eu hadnabod yn dda am fod y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio yn yr ysgol. Mae plant o grŵp oedran eang yn defnyddio'r clwb ar ôl ysgol ac mae rhai o'r plant iau yn awyddus i feithrin cydberthynas â'r plant hŷn am eu bod yn eu gweld fel modelau rôl. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gyfeillgar ac yn gefnogol ac maent yn cydweithio'n dda. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau cwrdd â ffrindiau ar ôl ysgol ac yn hoffi'r ymdeimlad o berthyn i'r clwb, am eu bod yn cael dweud eu dweud am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gwerthfawrogi'r parch a'r cwrteisi a gânt gan y staff. Mae'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth cofleidiol yn y camau cynnar o ran dysgu sgiliau i wella eu hannibyniaeth. Cânt gyfle i helpu eu hunain i fwyd yn ystod amser byrbryd ac arllwys eu diodydd eu hunain. Cânt eu hannog i wisgo eu cotiau cyn mynd allan. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad drwy gwblhau'r tasgau hyn. Nid ydynt yn defnyddio'r toiled yn annibynnol am fod disgwyl iddynt ofyn am gael defnyddio'r toiled yn ystod eu hamser yn yr ysgol bob bore, a chânt gymorth i wneud hynny. Mae'r gwasanaeth cofleidiol yn dilyn y system hon.

Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol a diddorol. Mae'r gweithgareddau awyr agored yn boblogaidd ac wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r plant yn y gwasanaeth cofleidiol yn awyddus i chwarae yn yr awyr agored hyd yn oed pan fydd y tywydd yn oer. Mae cyfleusterau awyr agored ar wahân ar gyfer y plant hŷn a'r plant iau ac mae digon o le ar gael. Mae hyn yn golygu bod gan y plant le i fod yn egnïol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae corfforol. Mae'r plant yn mwynhau dringo'r ffrâm

ddringo yn benodol, sydd ar gael yn y ddau fuarth chwarae yn yr ysgol. Nid yw'r plant yn chwarae yn yr awyr agored ar ôl ysgol yn ystod y misoedd tywyll, ond maent yn defnyddio adnoddau amgen megis gweithgareddau cerrig stepiau er mwyn bod yn egnïol a hybu cydbwysedd. Maent yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau creadigol a chymdeithasol drwy gymryd rhan mewn chwarae di-strwythur a ddewiswyd yn rhydd, sydd wedi'u harwain ganddynt eu hunain, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac yn hybu eu datblygiad cyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae amrywiaeth dda o weithdrefnau iechyd a diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau llesiant y plant. Caiff ffyrdd iach o fyw eu hyrwyddo ac mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Mae angen atgyfnerthu rhai systemau iechyd.

### Ein canfyddiadau

Mae systemau effeithiol a phriodol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant, gan gynnwys hyfforddiant Prevent, ar ôl iddynt gael eu recriwtio a chaiff hyn ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae Prevent, menter y Llywodraeth, yn ymwneud â'r angen i bob darparwr gofal plant amddiffyn plant rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth fel rhan o'u dyletswydd diogelu. Mae'r staff yn defnyddio system ddynodedig i gofnodi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelwch plentyn a chaiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r awdurdod perthnasol er mwyn ymchwilio iddi fel y bo angen. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant a hybu ffyrdd iach o fyw.

Mae pob damwain yn cael ei chofnodi'n ffurfiol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys anafiadau a gafwyd wrth chwarae ar fuarth yr ysgol. Mae rhieni'n llofnodi'r holl gofnodion damweiniau. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn hyderus wrth ddelio ag unrhyw fân anafiadau. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth sy'n ymwneud ag adweithiau alergaidd y plant ac yn cofnodi hyn er mwyn sicrhau bod strategaethau ar waith i gefnogi'r plant pan fo angen. Mae'n rhaid i rywfaint o'r wybodaeth hon fod yn gliriach ac mae angen ei diweddaru. Rhoddodd y person â chyfrifoldeb sicrwydd i ni ei bod yn bwriadu mynd i'r afael â gwaith hwn ar unwaith. Cafodd y ffurflen a ddefnyddir i roi meddyginiaeth ei diweddaru gan yr unigolyn cyfrifol i gynnwys gwybodaeth am y dos diwethaf a roddwyd gan y rhieni gartref. Cafodd AGC gopi ar ôl yr arolygiad, fel y gofynnwyd amdano.

Mae'r staff yn sicrhau bod y ddarpariaeth er mwyn rheoli heintiau yn cael ei rheoli'n dda ac mae pob un ohonynt wedi ymgymryd â hyfforddiant hylendid bwyd. Caiff y byrddau eu glanhau'n ofalus cyn bwyta a golchodd y plant eu dwylo ar ôl chwarae yn yr awyr agored a chyn bwyta. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio bwydlenni iach sy'n cael eu newid yn rheolaidd. Yn y gwasanaeth cofleidiol, mae'r plant yn brwsio eu dannedd bob dydd fel rhan o fenter Cynllun Gwên.

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith ac mae'r staff yn ei ddilyn er mwyn darparu gofal ac arweiniad cyson i'r plant. Mae pob aelod o'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar ddealltwriaeth

dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae'n effeithio ar ymddygiad plant. Mae'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol ac maent yn barchus, yn gwrtais ac yn garedig tuag at ei gilydd a'r plant. Clywsom y staff yn hybu ymddygiad cadarnhaol drwy ganmol ac annog y plant.

Yn y gwasanaeth cofleidiol, mae gwaith cynllunio dyddiol yn sicrhau bod dysgu a datblygiad y plant wedi'i strwythuro. Caiff diddordebau'r plant eu hystyried ac mae'r staff yn achub ar bob cyfle i gynnwys digwyddiadau tymhorol a diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys y Nadolig, y Pasg a Sul y Mamau. Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig mewn perthynas â'u bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau hwyliog sy'n hybu eu hyder a'u hunan-barch.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r gwasanaethau wedi'u lleoli yn Ysgol Gynradd Penalltau yng Nghwm Calon yn Ystrad Mynach. Mae'r ddwy elfen o'r gwasanaeth yn cael defnyddio ystafelloedd dynodedig yn yr ysgol. Mae cegin sy'n cael ei defnyddio gan y grŵp ar ôl ysgol i baratoi bwyd hefyd. Mae'r safle'n ddiogel, yn ddeniadol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n cynnig cyfleoedd da i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a dysgu.

### Ein canfyddiadau

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Rhoddir sylw da i gynnal lefelau priodol o ran goruchwylio'r plant. Mae cymarebau staff i blant yn cael eu bodloni bob amser a rhagorir ar y cymarebau hyn yn aml. Gofynnir i bawb sy'n ymweld â'r safle lofnodi wrth gyrraedd a darparu prawf adnabod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw unigolion anawdurdodedig yn cael mynediad i'r safle. Mae cofnodion o bob plentyn sy'n mynychu'r ddau wasanaeth ac mae'r rhain yn cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael. Nid yw'r plant iau yn gallu gadael y prif ystafelloedd heb gymorth am fod y dolenni wedi'u gosod ar frig y drysau. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd yn y ddau wasanaeth. Caiff pob ymarfer ei gofnodi a gwnaethom drafod y ffaith bod angen rhagor o wybodaeth i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd o gynnal y weithdrefn. Mae personél glanhau yr ysgol yn glanhau'r ddau wasanaeth gyda'r nos fel mater o drefn ac mae hyn yn sicrhau bod safon uchel o hylendid yn cael ei chynnal ac mae'r trefniadau glanhau yn adlewyrchu arferion hylendid da a dulliau rheoli heintiau effeithiol. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau gweledol ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn barod cyn i'r plant gyrraedd. Gwnaethom edrych ar sampl o asesiadau risg o'r clwb ar ôl ysgol a gwnaethom drafod y ffaith bod angen i'r dogfennau hyn gael eu diweddaru yn rheolaidd a'u defnyddio fel dogfennau gweithredol. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod asesiadau risg ar waith ar gyfer gweithgareddau a'r amgylchedd yn y gwasanaeth cofleidiol a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd cyfleusterau'r toiled yn hygyrch ac yn cael eu cynnal yn dda. Gofalwr yr ysgol sy'n ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw yn bennaf. Yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o gynnal y safle.

Mae'r safle'n cynnig amgylchedd cyfoethog i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r ddau grŵp yn defnyddio'r cyfleusterau awyr agored helaeth sy'n cynnwys digon o adnoddau a choetir yng nghefn y safle. Mae'r plant yn achub ar bob cyfle i chwarae yn yr awyr agored, ac yn ystod misoedd yr haf maent yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn yr awyr agored. Mae amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol i oedran y plant a chânt eu hannog i ddewis y rhain yn rhydd. Mae'r plant yn y clwb ar ôl ysgol yn mwynhau gweithgareddau crefft, celf a chwarae â 'tywod cinetig' a gwnaethant fwynhau dangos hyn i ni. Mae'r plant yn y gwasanaeth cofleidiol yn cael cyfleoedd helaeth i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwarae rôl. Mae nifer o'r plant yn hoffi ymlacio a sgwrsio â ffrindiau. Mae ystafell dawel ddynodedig i blant iau a chornel cyfforddus sy'n cynnwys clustogau yn y clwb ar ôl ysgol.

Mae'r ardal yn cael ei threfnu i hyrwyddo annibyniaeth y plant ac mae'r ffaith ei bod ar un lefel yn golygu ei fod yn hygyrch i blant ag anghenion symudedd.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn effeithiol. Mae gan yr unigolion cyfrifol ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo gwelliannau a chanlyniadau da i'r plant. Croesawyd yr holl argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad fel modd i ddatblygu a gwella ansawdd darpariaeth y gwasanaeth ymhellach. Mae'n rhaid i'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â recriwtio gael ei rheoli'r drylwyr.

### Ein canfyddiadau

Mae datganiad o ddiben ar waith y mae'n rhaid ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth, fel newidiadau o ran y staff, a'i anfon i AGC. Anfonodd yr unigolion cyfrifol y ddogfen ddiweddaraf atom yn syth ar ôl yr arolygiad. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chaiff yr holl wybodaeth bersonol ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg sef yr unig iaith a ddefnyddir drwy gydol y sesiynau.

Gwnaethom drafod y ffaith bod angen i ddirprwyon gael eu penodi ar gyfer rolau'r ddau berson â chyfrifoldeb er mwyn cymryd yr awenau pan fyddant yn absennol. Gwnaeth yr unigolion cyfrifol roi hyn ar waith ar unwaith. Mae systemau addas ar waith i fonitro'r gwasanaeth, ac mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn cynnwys barn y plant a'r rhieni. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ag uwch-reolwyr sy'n ymrwymedig i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau. Mae Menter Iaith yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r holl newidiadau rheoliadol ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â rheolwyr y gwasanaeth. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus gydag ansawdd y gwasanaeth a'u bod yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau agos mae'r plant wedi'u meithrin gyda'r staff maent yn eu hadnabod o'r ysgol yn arbennig. Mae'r rhieni hefyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth ar ôl ysgol ar safle'r ysgol am nad oes angen i'r plant deithio i leoliad arall. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law hyd yn hyn. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn deall y broses o wneud cwyn a'u bod yn hyderus y byddai unrhyw fater yn cael ei drin yn briodol os oedd angen.

Caiff y broses o recriwtio staff ei rheoli'n dda ar y cyfan. Gwelsom mai dim ond un geirda oedd yn ffeil dau aelod o'r staff yn hytrach na'r ddau eirda sy'n ofynnol. Gwnaeth yr unigolion cyfrifol gael gafael ar y dogfennau a oedd ar goll yn ddi-oed a'u hanfon atom. Gwnaethom drafod ansawdd y geirdaon a gafwyd a'r ffaith y dylent fod yn eu lle cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un ffurfiol yn rheolaidd

gyda'u rheolwyr, lle caiff eu datblygiad personol a phroffesiynol eu trafod a chaiff unrhyw anghenion o ran  hyfforddiant eu nodi.

Mae partneriaethau da ar waith gyda'r ysgol a gweithwyr iechyd proffesiynol y mae'r staff yn cysylltu â nhw os oes angen. Mae'r staff yn cwrdd â rhieni ar ddiwedd pob sesiwn ac yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol â nhw am eu plant ar yr adeg hon.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Sicrhau bod gwybodaeth gyflawn yn cael ei chadw er mwyn diogelu'r plant sy'n cael adweithiau alergaidd i sylweddau penodol;
- sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob gweithgaredd a'r amgylchedd a'u bod yn cael eu defnyddio fel dogfennau gweithredol a'u diweddaru'n rheolaidd;
- cynnwys gwybodaeth am gofnodion ymarferion tân er mwyn nodi unrhyw beryglon y daethpwyd ar eu traws ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r ymarfer er mwyn gwella diogelwch;
- sicrhau bod hysbysiadau amserol mewn perthynas â newidiadau i'r staff yn cael eu hanfon i AGC.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd a drefnwyd ymlaen llaw oedd hwn.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth am gyfnod o bum awr ar 7 Ionawr 2020.
- gwnaethom siarad â nifer o blant yn ystod y sesiynau, tri rhiant a phedwar aelod o'r staff. Gwnaethom siarad ag un o'r unigolion cyfrifol ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad er mwyn rhoi adborth;
- gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir gan AGC, yn ogystal ag edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, adolygiad o ansawdd y gofal, asesiadau risg, copïau o bolisïau a oedd yn cynnwys diogelu, rheoli ymddygiad a chofnodion meddygol. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau pedwar aelod o'r staff a ffeiliau dau blentyn;
- gwnaethom gynnal archwiliad gweledol o'r safle.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolion Cyfrifol** | **Rhiannon Tucker**<br>**Maria Lees** |
| **Personau â chyfrifoldeb** | **Nicola Chard**<br>**Kirstie Rees** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 11 oed** |
| **Oriau agor** | **Gwasanaeth cofleidiol 12:15 – 15:15**<br>**Clwb ar ôl ysgol 15:15 – 17:15** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **24 Awst 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **07/01/2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br><br>Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/02/2020

Nid oedd gan unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio statws Agored.